CYFRES FRIFFIO SEITHFED SENEDD

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# NODYN BRIFFIO 4: Cefnogi Trawsnewid Digidol ac Arloesedd mewn Gofal Cymdeithasol

**Y cais: Cefnogi trawsnewid digidol ac arloesedd ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae angen i'r sector gael mynediad at y technolegau mwyaf effeithiol. Rhaid i ni fuddsoddi mewn trawsnewid digidol i gyfarparu gofal cymdeithasol â systemau modern, rhyngweithredol sy'n seiliedig ar arloesedd moesegol. Drwy harneisio data a deallusrwydd artiffisial, gallwn rymuso'r gweithlu i ddarparu cymorth mwy effeithiol a hygyrch.**

## Mae trawsnewid digidol eisoes yn newid gofal cymdeithasol yng Nghymru

Mae rhywbeth arwyddocaol yn digwydd ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cynhyrchu asesiadau gwell mewn llai o amser. Mae staff cartrefi gofal yn treulio mwy o amser gyda phreswylwyr a llai o amser yn chwilio am waith papur. Mae ymarferwyr a oedd yn ofalus ynghylch deallusrwydd artiffisial ddeuddeg mis yn ôl yn ei ddisgrifio fel rhywbeth na fyddent am weithio hebddo. Nid uchelgais ar gyfer y dyfodol yw trawsnewid digidol mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru mwyach – mae'n realiti sy'n dod i'r amlwg ac mae'r dystiolaeth o'i effaith yn gymhellol.

Mae ADSS Cymru wedi arwain dwy raglen ddigidol fawr ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynhyrchu rhywfaint o'r dystiolaeth fwyaf cadarn gan ymarferwyr o effaith ddigidol yn y DU. Mae'r nodyn briffio hwn yn nodi beth sydd eisoes yn gweithio, sut olwg sydd ar y cyfle ar raddfa fawr, a'r hyn yr ydym yn gofyn i'r Senedd newydd ein helpu i'w gyflawni.

## Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos

Roedd adolygiad ledled Cymru o offer wedi'u cynorthwyo gan ddeallusrwydd artiffisial – yn gweithio o fewn yr amgylchedd Microsoft 365 sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ar draws llywodraeth leol Cymru – yn cynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol ac yn cynhyrchu canlyniadau trawiadol. Canfu adolygiad parodrwydd cychwynnol yn 2025 fod 69 y cant o ymarferwyr wedi mynegi agweddau cadarnhaol tuag at offer deallusrwydd artiffisial. Canfu'r adolygiad dilynol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026 fod y rhan fwyaf o awdurdodau bellach wedi symud o gynlluniau peilot i ddefnydd gweithredol a pharhaus. Mae ymarferwyr yn llunio drafftiau cyntaf o asesiadau, cynlluniau gofal a dogfennau llys, yn crynhoi ffeiliau achos cymhleth, yn rheoli gohebiaeth, ac yn cefnogi gwaith galluedd meddyliol.

Mae'r data effaith yn rhyfeddol. Adroddodd 86 y cant o ymarferwyr welliannau yn ansawdd eu gwaith ysgrifenedig. Roedd 75 y cant yn teimlo'n fwy cadarnhaol am eu rôl. Adroddodd mwy na hanner welliant mewn llesiant. Roedd traean yn arbed mwy na saith awr y mis ar waith gweinyddol – oriau a ddychwelwyd yn uniongyrchol i'r bobl maen nhw'n eu cefnogi. Yn gyson, mae ymarferwyr yn dweud mai'r budd mwyaf yw cael mwy o amser ar gyfer ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth.

Ym maes gofal preswyl, cynhaliodd ADSS Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru beilot o system rheoli gofal ddigidol PredicAire mewn cartrefi gofal awdurdod lleol yn rhanbarth Gwent. Mae symud o systemau papur i systemau digidol integredig yn caniatáu i weithwyr gofal gofnodi yn y man gofal, yn rhoi darlun amser real o'r cartref i reolwyr, ac yn galluogi cyfathrebu cyflymach â theuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol. Roedd y rhai a fabwysiadodd y dechnoleg yn gynnar yn unfrydol: mae'r dechnoleg yn rhoi mwy o amser iddynt gyda phreswylwyr ac ni fydden nhw'n mynd yn ôl.

Mae'r rhaglenni hyn yn eistedd ochr yn ochr ag ystod gynyddol o offer deallusrwydd artiffisial sy'n trawsnewid arfer ledled Cymru. Mae offer copïo deallusrwydd artiffisial fel Magic Notes – sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan dimau gofal cymdeithasol ar draws nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Powys – yn gwrando ar sgyrsiau gofal ac yn cynhyrchu dogfennaeth strwythuredig yn awtomatig, gan ryddhau amser ymarferwyr. Mae Sgript, a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn darparu adnodd digidol i ymarferwyr sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda'i gilydd, mae'r offer hyn yn cyfeirio at sector sy'n newid y ffordd y mae'n gweithio'n wirioneddol ac yn ymarferol – ac yn dangos bod technoleg, pan gaiff ei gweithredu'n dda, yn cryfhau yn hytrach na disodli'r elfen ddynol greiddiol mewn gofal.

## Y cyfle ar raddfa fawr

Mae'r dystiolaeth o'r rhaglenni hyn yn awgrymu trawsnewidiad sy'n bosibl ar draws holl ofal cymdeithasol Cymru – ond sydd ar hyn o bryd yn anwastad. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi symud ymlaen ond mae'r cyflymder a'r dyfnder yn amrywio'n sylweddol. Mae awdurdodau lleol sydd ag arweinwyr digidol pwrpasol a llywodraethiant clir ymhell ar y blaen na'r rhai hebddynt ac mae'r risg o system dwy haen yn wirioneddol. Mae gwaith ar gysylltu gofal a mentrau cysylltiedig eisoes wedi dangos y gall y sector gefnogi darpariaeth gydweithredol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol – ond mae'r cynnydd hwn mewn perygl o aros yn dameidiog ac yn methu â chyflawni'r raddfa sydd ei hangen heb fecanwaith cydlynu cenedlaethol cliriach a buddsoddiad cynaliadwy i symud y tu hwnt i gynlluniau peilot i weithredu cyson. Mae'r potensial hwn yn cael ei atgyfnerthu gan waith parodrwydd Copilot ADSS Cymru, a ganfu fod ymarferwyr yn symud yn gyflym o fod yn ofalus i fod yn frwdfrydig unwaith y byddant yn cael profiad a chymorth ymarferol – gan gadarnhau bod yr awydd i fabwysiadu'r offer hyn ar raddfa fawr, ac i fanteisio ar bŵer llawn llwyfannau prif ffrwd fel Copilot, eisoes yn bodoli ar draws y gweithlu.

Pe bai'r offer a'r dulliau sydd eisoes yn gweithio mewn rhannau o Gymru ar gael yn gyson ar draws pob un o'r 22 awdurdod – gyda chymorth seilwaith a rennir, canllawiau cenedlaethol a gwaith datblygu'r gweithlu wedi'i ariannu'n briodol – byddai'r effaith gronnus yn sylweddol, gan gynnwys dychwelyd miloedd o oriau o amser ymarferwyr i ofal uniongyrchol; gwell ansawdd a chysondeb mewn asesiadau, cynlluniau gofal a dogfennau llys; penderfyniadau mwy gwybodus; a gweithlu sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cyfarparu ar gyfer ymarfer modern. Yn y pen draw, byddai'n arwain at ganlyniadau gwell i bobl Cymru sy'n dibynnu ar ofal cymdeithasol. Nid uchelgais damcaniaethol yw hon. Mae'n rhagamcan rhesymol o dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli.

## Pobl, diwylliant a pharodrwydd y gweithlu

Nid her dechnoleg yn bennaf yw trawsnewid digidol mewn gofal cymdeithasol. Mae'n her i bobl a diwylliant. Mae'r dystiolaeth o'r gwaith parodrwydd ar gyfer deallusrwydd artiffisial a'r peilot PredicAire yn tynnu sylw at yr un casgliad: pan fydd gan ymarferwyr gyfle i weld technoleg ar waith, ymgysylltu â hi'n ymarferol, a derbyn hyfforddiant digonol a chymorth parhaus, mae'r mwyafrif yn croesawu newid yn gadarnhaol ac yn gyflym. Canfu adolygiad parodrwydd Copilot, er mai dim ond 39 y cant oedd yn gyfarwydd ag offer deallusrwydd artiffisial ar y dechrau, yn dilyn sesiynau grŵp ffocws ymarferol dywedodd mwy nag 85 y cant yr hoffent ddechrau arni neu ddysgu mwy – newid cyflym ac arwyddocaol.

Nid gwrthwynebiad i dechnoleg yw'r hyn sy'n dal pobl yn ôl ond diffyg cynefindra, hyder a hyfforddiant penodol i'r sector sy'n cysylltu offer â realiti gwaith bob dydd. Mae cyfarparu'r gweithlu yn gofyn am ddull cynaliadwy ac ymarferol: hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i deilwra i wahanol rolau, rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, arweinyddiaeth weladwy gan uwch-reolwyr, a darpariaeth hyfforddiant gloywi barhaus wedi'i hymgorffori fel mater o drefn. Mae'r dystiolaeth yn glir bod y dechnoleg wedi'i bwriadu i gefnogi ymarferwyr, nid i ddisodli'r farn broffesiynol a'r cysylltiad dynol sy'n graidd anhepgor ym maes gofal cymdeithasol.

## Gwneud trawsnewid yn deg: y Gymraeg a chynhwysiant digidol

Rhaid i drawsnewid digidol weithio i bawb. Nid yw offer deallusrwydd artiffisial cyfredol yn cynhyrchu trawsgrifiadau na chynyrchiadau dibynadwy yn y Gymraeg eto, gan greu risg wirioneddol bod defnyddwyr gwasanaethau ac ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg dan anfantais oherwydd yr union offer a gynlluniwyd i'w cefnogi. Mae un awdurdod wedi datblygu dull dros dro ymarferol, gan lwybro allbynnau deallusrwydd artiffisial drwy ei dîm Cymraeg, ond ni ddylai hyn barhau i fod yn ateb lleol. Mae ADSS Cymru wedi ymrwymo i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru a darparwyr technoleg i drin gallu deallusrwydd artiffisial yn y Gymraeg fel blaenoriaeth, nid fel ôl-ystyriaeth, ac i sicrhau bod trawsnewid digidol yn gyson ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ei hun i'r iaith.

Mae cynhwysiant digidol yr un mor bwysig. Ni ddylai trawsnewid ehangu anghydraddoldebau presennol. Ni ddylai pobl hŷn, y rhai mewn cymunedau gwledig a phobl sydd â phrofiad digidol cyfyngedig ganfod bod system gofal cymdeithasol wedi'i digideiddio yn anoddach ei defnyddio. Rhaid i ddewisiadau amgen hygyrch a dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl fod yn egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori o'r cychwyn cyntaf ym mhob gweithrediad.

## Llywodraethiant cenedlaethol a Chomisiwn Deallusrwydd Artiffisial Cymru

Mae cyflymder mabwysiadu deallusrwydd artiffisial ar draws gofal cymdeithasol Cymru yn rhagori ar y fframweithiau llywodraethiant cenedlaethol a gynlluniwyd i'w gefnogi. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn datblygu polisïau, fframweithiau llywodraethu data a dulliau cydymffurfio cyfreithiol ar gyfer deallusrwydd artiffisial ar eu pen eu hunain – gan ddyblygu ymdrech, creu anghysondeb, a gwneud ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn agored i risg ddiangen. Nid yw hyn yn gynaliadwy.

Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio drwy Gomisiwn Deallusrwydd Artiffisial Cymru, ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol ar fframweithiau moesegol, canllawiau cyfreithiol a safonau data ar gyfer deallusrwydd artiffisial mewn gofal cymdeithasol. Mae ADSS Cymru eisiau gweld arloesedd yn cael ei gyflymu, nid ei atal, ond rhaid iddo fod yn arloesedd gyda hyder, ar sail gyfreithiol a moesegol gadarn. Byddai rhwydwaith cenedlaethol o hyrwyddwyr deallusrwydd artiffisial a chanolfan dystiolaeth a rennir ar gyfer gofal cymdeithasol yn cyflymu gallu'r sector i ddysgu a symud ymlaen gyda'i gilydd yn sylweddol, yn hytrach na phob awdurdod lleol yn datrys yr un problemau ar wahân. Mae yna hefyd risg benodol ac uniongyrchol y mae angen ei henwi: mae sylw polisïau a buddsoddi cyfredol yn parhau i gael eu hanelu tuag at drawsnewid digidol mewn iechyd, gyda ffocws penodol cyfyngedig ar anghenion penodol gofal cymdeithasol. Heb fecanwaith cenedlaethol clir ar gyfer gofal cymdeithasol digidol, mae perygl gwirioneddol y caiff gofal cymdeithasol ei drin fel rhywbeth eilradd i ddulliau sy'n cael eu harwain gan iechyd, er gwaethaf y rôl ganolog y mae'n ei chwarae mewn atal, llesiant a chymorth cymunedol. DiSC Cymru – y bartneriaeth genedlaethol dan arweiniad y sector sy'n dwyn ynghyd yr holl 22 awdurdod lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ADSS Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid cyflawni – yw'r mecanwaith presennol, dibynadwy y gellir lliniaru'r risg hon drwyddo. Byddai cydnabod DiSC Cymru yn ffurfiol fel y prif gyfrwng cenedlaethol ar gyfer trawsnewid digidol gofal cymdeithasol a'i ymgorffori yn y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth a strwythurau diwygio ehangach yn rhoi'r statws cenedlaethol a'r cydlyniad sydd eu hangen ar ofal cymdeithasol digidol.

## Gweithio gyda'r Senedd newydd

Mae trawsnewid digidol gofal cymdeithasol Cymru ar y gweill ac mae'n dwyn ffrwyth. Yr hyn sydd ei angen arno nawr yw'r buddsoddiad cynaliadwy, yr arweinyddiaeth genedlaethol a'r amgylchedd polisi i symud o raglenni addawol mewn rhannau o Gymru i arfer digidol cyson o ansawdd uchel ar draws y sector cyfan.

Mae ADSS Cymru am sefydlu perthynas waith weithredol â Llywodraeth Cymru a chydag Aelodau'r Senedd ar draws pob grŵp gwleidyddol i ysgogi'r cynnydd hwnnw. Yn benodol, rydym yn gofyn am y canlynol: cydnabyddiaeth ffurfiol o DiSC Cymru fel y bartneriaeth ddigidol gofal cymdeithasol genedlaethol a'r prif lwybr ar gyfer ymgysylltu ar y cyd â'r sector ar drawsnewid digidol a data; buddsoddiad aml-flwyddyn cynaliadwy yn hytrach na chyllid prosiect untro, gan symud i ffwrdd o'r ddibyniaeth ar grantiau tymor byr sy'n atal cynllunio, cadw a gwaith ar raddfa; comisiynu strategaeth ddigidol a data pum i ddeng mlynedd ar gyfer gofal cymdeithasol, dan arweiniad DiSC Cymru ac wedi'i halinio â blaenoriaethau diwygio cenedlaethol ehangach; integreiddio DiSC Cymru o fewn cynllunio'r Swyddfa Genedlaethol a threfniadau diwygio gofal cymdeithasol ehangach fel bod trawsnewid digidol yn cael ei gynnwys yn y brif ffrwd o ddiwygio systemau, nid yn cael ei drin fel llwybr ar wahân; llywodraethiant cenedlaethol drwy Gomisiwn Deallusrwydd Artiffisial Cymru ar fframweithiau moesegol a safonau data; ac ymgysylltu ystyrlon â darparwyr technoleg ar allu deallusrwydd artiffisial yn Gymraeg. Mae'r dechnoleg wedi'i phrofi. Mae tystiolaeth yr ymarferwyr yn gymhellol. Mae'r awydd ar draws y gweithlu yn real. Mae gan y seithfed Senedd y cyfle i fod yr un sy'n datgloi potensial llawn gofal cymdeithasol digidol yng Nghymru o'r diwedd ac mae ADSS Cymru yn barod i helpu i wireddu hynny.

## Gweithio gyda'r Senedd newydd

ADSS Cymru / CLlLC. Asesu parodrwydd digidol awdurdodau lleol a pharodrwydd eu gweithlu i weithredu Copilot ym maes gofal Cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mawrth 2025.

ADSS Cymru / CLlLC. Gweithredu Offer Deallusrwydd Artiffisial mewn Gofal Cymdeithasol yn Awdurdodau Lleol Cymru: Adolygiad o Ddysgu a Chynnydd. Mawrth 2026.

ADSS Cymru / CLlLC. Treialu PredicAire mewn Gofal Preswyl (Rhanbarth Gwent): Dysgu ar y Cyd ar gyfer Trawsnewid Digidol. Mawrth 2025.

Fframwaith DiSC Cymru. Piler Dechrau Cadarn. disc.cymru/cy/fframwaith/dechrau-cadarn/

Ymchwil y Senedd, A all GIG Cymru fynd yn ddigidol? Materion Allweddol ar gyfer y Seithfed Senedd. Mai 2026.

Gofal Cymdeithasol Cymru, Cefnogi Digidol mewn Gofal Cymdeithasol – Y Grŵp Gwybodaeth.

Llywodraeth Cymru. Strategaeth Ddigidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. 2023.

ADSS Cymru yw Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y corff arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

**Am ragor o wybodaeth:**
ADSS, Uned Fusnes, Tŷ Antur, Parc Navigation, Abercynon, CF45 4SN